# Y Bwrdd Rheoli

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad: **Conference Room 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: **Dydd Iau, 9 Hydref 2014**

Amser: **09.15 - 12.15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Liz Jardine, 02920 89 8705**
Ysgrifenyddiaeth
029 2089 8705
liz.jardine@wales.gov.uk

## Agenda MB (14-14)

### Dechrau'r cyfarfod

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

### 2 Nodyn cyfathrebu i'r staff - Anna Daniel

### 3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf (15 Medi 2014) (Tudalennau 1 - 7)

*MB (14-14) Cofnodion cyfarfod 15 Medi 2014*

### Y prif eitemau

### Eitemau ar gyfer y Bwrdd Rheoli

### 4 Rheoli Capasiti - Papur 2 (Tudalennau 8 - 24)

*MB (14-14) Papur 2 - Cynllunio Capasiti a'r gweithlu*

### 5 Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol - Papur 3 (Tudalennau 25 - 36)

*MB (14-14) Papur 3 - Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol*

### 6 Adolygiad o flaenoriaethau strategol a newid trefniadol - Papur 4 ac

**atodiad** (Tudalennau 37 - 53)
*MB (14-14) Papur 4 - Adolygiad o flaenoriaethau strategol a newid*
*MB (14-14) Papur 4 atodiad - Adolygiad o flaenoriaethau strategol a newid trefniadol*

## Cloi'r cyfarfod

## 7 Unrhyw Fusnes Arall

## Diwedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Bwrdd Rheoli
## Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014
## 13.30 – 15.00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Nicola Callow (Pennaeth Cyllid)
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)
Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)
Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)
Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)
Mike Snook (Pennaeth Pobl a Lleoedd)
Craig Stephenson (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn)
Dave Tosh (Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Cynulliad a TGCh)
Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)
Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau)

**Hefyd yn bresennol:**
Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)

**1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

**1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh) a Bedwyr Jones (Pennaeth Dros Dro TGCh).**

**1.2** Nid oedd buddiannau i'w datgan.

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1** Cytunodd Craig Stephenson i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

**3.0 Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**3.1** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014 yn gofnod cywir.

**4.0 Cyllideb 2015-16**

**4.1** Cyflwynodd Nicola Callow y drafft diweddaraf o gyllideb Comisiwn y Cynulliad i'r Bwrdd, gan dynnu sylw at ddatblygiadau newydd ers yr adolygiad diwethaf cyn toriad yr haf. Roedd y datblygiadau hyn yn cynnwys safbwynt newydd ar y cynllun pensiwn ac ar gyllid dangosol y tu hwnt i 2015-16, a chafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa fuddsoddi ar gyfer 2015-16 a'r blynyddoedd wedyn.

**4.2** Gofynnir i'r Comisiynwyr gytuno ar y gyllideb yn eu cyfarfod ar 17 Medi a byddai'n cael ei gosod gerbron y Cynulliad ar 25 Medi. Disgwylir i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar y gyllideb ar 2 Hydref.

**4.3** Cytunodd y Bwrdd Rheoli fod y fformat a'r dyluniad wedi gwella a chynigiwyd ychydig o fân newidiadau a sylwadau am y cyflwyniad. Roedd y Bwrdd am ganmol Nicola a'r staff cyllid drwy'r sefydliad am eu gwaith ar y gyllideb.

**4.4 Camau i'w cymryd**:

- Nicola Callow i holi'r Tîm Cydraddoldeb ynghylch hygyrchedd y ffurfdeip.
- Penaethiaid gwasanaeth i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol at Nicola cyn diwedd y dydd.

**5.0 Canlyniadau arolwg yr Aelodau a'u staff cymorth**

**5.1** Rhoddodd Dave Tosh grynodeb o gasgliadau arolwg yr Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth 2014-15. Roedd yr arolwg eleni yn llawer byrrach nag arolygon blaenorol - 12 cwestiwn o'u cymharu â 50 y llynedd - ac roedd yr arolwg symlach wedi gweithio'n dda. Er bod ychydig llai wedi llenwi'r arolwg eleni, mae'n debyg y gellid priodoli hynny i'r ffaith bod nifer o arolygon eraill yn cael eu cynnal yr un pryd. Roedd y sgoriau'n gyffredinol dda, ac roeddent cystal â chanlyniadau'r arolwg diwethaf, neu'n rhagori arnynt, ac roedd cryn gynnydd i'w weld mewn meysydd fel

TGCh a'r gallu i weithio yn eu dewis iaith. Roedd y sgôr ymgysylltu'n is na'r arolwg blaenorol a chytunwyd y dylai'r arolygon yn y dyfodol fod yn gliriach am yr hyn y mae ymgysylltu'n ei olygu i wneud yn siŵr bod y canlyniadau'n ystyrlon.

**5.2** Diolchodd y Bwrdd Rheoli i'r staff a oedd wedi cyfrannu at wella'r sgoriau.

**5.3 Camau i'w cymryd**:

- y penaethiaid gwasanaeth i ymgorffori camau gweithredu'r arolwg yn eu cynlluniau gwasanaeth, gan gyfeirio'n benodol at ganlyniadau'r arolwg;
- y penaethiaid i adrodd yn ôl i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed drwy gyfrwng diweddariad y Prif Weithredwr;
- dylid rhannu'r cynnydd a wnaed ym maes gwasanaethau iaith Gymraeg gyda sefydliadau eraill a dylid rhoi adborth cadarnhaol i staff;
- y tîm Cyfathrebu i ystyried sut y gellid helpu'r Aelodau ymhellach i ymgysylltu â'u hetholaethau; a
- dylid ystyried sut i ymdrin â'r arolwg nesaf, i gynyddu'r nifer sy'n ymateb.

**6.0 Strategaeth y Cyfryngau Cymdeithasol a gwerthuso'r cynllun i drydar yn fyw**

**6.1** Cyflwynodd Non Gwilym ddwy eitem i'w trafod. Yr eitem gyntaf oedd Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol y Cynulliad sy'n ehangu ar yr egwyddorion a nodir yn strategaeth e-ddemocratiaeth 2010 y Cynulliad, a nododd sut y dylai'r Comisiwn ymgysylltu'n ddigidol â phobl Cymru. Roedd yr ail bapur yn ymdrin â'r adolygiad o'r cynllun i drydar yn fyw, a oedd yn pwyso a mesur y cynllun i dreialu'r cynllun gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin.

**6.2** Gwnaeth y Bwrdd Rheoli argymhellion ynghylch y dogfennau drafft yn tanlinellu bod y gwaith hwn yn helpu i lenwi bwlch y

'ddiffyg democrataidd'[1]. Roedd y Cynulliad yn arloesi ac yn arwain y ffordd yn y maes hwn a dylid cynnwys cymaryddion â sefydliadau eraill yn y ddogfen. Fodd bynnag, roedd yn bwysig tawelu ofnau'r Comisiwn ynglŷn â thrydar yn fyw gan ofalu bod y goblygiadau'n glir a chan egluro beth yn union oedd yn cael ei ddweud a'i wneud, gan gynnwys negeseuon trydar gan Aelodau'r Cynulliad.

**6.3** Byddai'r strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn cael ei chyflwyno i'r Comisiynwyr yn eu cyfarfod ar 29 Hydref.

**6.4 Camau i'w cymryd**:

- Non Gwilym i grynhoi'r strategaeth ar ffurf papur esboniadol ac atodiadau'n cyfeirio at y polisi a'r broses o werthuso'r cynllun i drydar yn fyw;
- Elisabeth Jones i sicrhau bod y polisi'n gydnaws â'r polisi rhyddid gwybodaeth ac yn gyson â'r Ddeddf Diogelu Data a Hawlfraint.

## 7.0 Diogelwch yr ystâd

**7.1** Trafododd y Bwrdd Rheoli bapur drafft i'r Comisiynwyr ei ystyried yn eu cyfarfod ar 29 Medi, yn ymwneud â diogelwch yr ystâd.

## 8.0 Dewisiadau TGCh yn y dyfodol yn y Siambr

**8.1** Yn dilyn arolwg ac ymgynghoriad â'r Aelodau a grwpiau'r pleidiau ac ar ôl cynnal dadansoddiad manwl o sut y gellid cyflwyno dewisiadau dros doriad yr haf, cyflwynodd Dave Tosh y cynllun arfaethedig i ail-gyflunio TGCh ar ddesgiau'r Aelodau yn y Siambr. Y dewis mwyaf poblogaidd ymhlith yr Aelodau oedd cyfuniad o TGCh sefydlog a symudol fel y gallent ddewis sut i ddefnyddio'u gweithfannau yn y Siambr. Byddai'r cynllun arfaethedig yn gwarantu y gallai'r Aelodau ddefnyddio holl systemau a gweld holl fusnes y Cyfarfod Llawn.

---

[1] **"Diffyg democrataidd" yw'r term a ddefnyddiodd y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler i ddisgrifio'r ffaith nad yw llawer o sefydliadau'r cyfryngau yn y DU a Chymru yn rhoi'r sylw dyledus i waith y Cynulliad, a'r gwahaniaethau mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i ddatganoli.**

**8.2** Derbyniodd y Bwrdd Rheoli y cynnig. Byddai'r Comisiynwyr yn cael eu gwahodd i ddod i benderfyniad yn eu cyfarfod ar 29 Medi.

**8.3** **Cam i'w gymryd**: archwilio'r posibiliadau o ran brandio ar y tu allan i blât cefn y weithfan.

**9.0 Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol (Ebrill – Mehefin 2014)**

**9.1** Trafododd y Bwrdd yr adroddiad drafft a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ar 29 Medi.

**9.2** Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Rheoli yn ystyried y naratif, a hynny'n benodol i egluro cynnydd i sicrhau bod y Comisiwn yn cael gwybodaeth ystyrlon am y dangosyddion.

**9.3** **Cam i'w gymryd**: Y Bwrdd Rheoli i anfon sylwadau a geiriad posibl at Kathryn Hughes cyn gynted â phosibl.

**10.0 Arolwg Staff**

**10.1** Croesawyd Lowri Williams (Pennaeth Adnoddau Dynol) i'r cyfarfod a chyflwynodd argymhellion ar gyfer yr arolwg staff nesaf. Cawsant eu trafod gan y Bwrdd wedyn.

**10.2** Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ym mis Gorffennaf 2013, a chyhoeddwyd y canlyniadau fis Hydref 2013. Roedd yr arolwg hwn wedi canolbwyntio ar 'faterion moesol, cymhelliant a pharch'. Roedd yn bwysig cynnwys cymaryddion priodol yn yr arolygon yn y dyfodol a'u bod yn cael eu hanfon ar adeg addas o ran anghenion busnes. Cynigiwyd y dylai'r arolwg nesaf fod yn fyrrach ac y dylai gynnwys llai o gwestiynau. Dylai ganolbwyntio ar ymgysylltiad staff a rhoi cyfle i staff ychwanegu sylwadau.

**10.3** Roedd y Bwrdd o'r farn bod hwn yn amser da i resymoli a gwella cyfathrebu mewnol gan gyflwyno'r arolwg fel rhan o becyn cyfathrebu dwyffordd â staff.

**10.4** Derbyniodd y Bwrdd ar yr argymhellion a chytunodd y dylid cynnal yr arolwg nesaf yn ystod gwanwyn 2015.

**10.5** **Cam i'w gymryd**: Lowri Williams i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno fforwm staff, a fyddai'n gysylltiedig â chyfathrebu mewnol, ac i baratoi papur ar gyfer y Bwrdd Rheoli cyn cyflwyno'r wybodaeth yng nghyfarfod nesaf yr Undeb Llafur.

**11.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau**

**11.1** Rhoddodd Claire Clancy adroddiad ar gyfarfod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20 Awst. Roedd Nicola Callow wedi nodi bod targedau Gwerth am Arian wedi'u cyrraedd a, chan fod rhagor o gyllid ar gael i'w wario, ystyriodd y Bwrdd gyflymu'r rhaglen wariant ar wella'r ystâd.

**11.2** Diolchodd Claire i'r Bwrdd Rheoli a'u timau am gywirdeb y rhagolygon a ganiataodd i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau reoli'r gyllideb mor ofalus.

**11.3** Roedd y Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo strwythur newydd y tîm Adnoddau Dynol yn eu cyfarfod. Cytunwyd ar achos busnes ar gyfer y cytundeb Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ac ar gyfer Swyddog Cyswllt â'r Cyfryngau yn y tîm Cyfathrebu a Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol yn y tîm Cyswllt Cyntaf.

**12.0 Cynllunio capasiti**

**12.1** Cafodd y Bwrdd Rheoli drafodaeth fer am adnoddau staffio o ystyried gofynion yn y dyfodol, a chyfeiriwyd yn benodol at y rhaglen ddeddfu. Cynhelir cyfarfod blynyddol y Bwrdd Adnoddau a Chynllunio ar 24 Tachwedd ond teimlwyd bod angen trafod y mater cyn hynny felly cytunwyd i ystyried cynnal y drafodaeth honno'n gynt. Byddai'r papur ar Reoli Capasiti, a baratowyd gan Lowri Williams ar gyfer y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, yn cael ei ddosbarthu yn y cyfamser.

**Cloi'r cyfarfod**

**13.0 Unrhyw fater arall**

**13.1** Rhoddodd Mike Snook adroddiad ar y gwaith a gwblhawyd dros yr haf i wella'r ystâd gan ddweud bod y Cynulliad wedi ennill Gwobr y Ddraig Werdd am reolaeth amgylcheddol unwaith eto eleni. Roedd y polisi sabothol bellach wedi'i gwblhau ac roedd yn barod i'w lansio.

**13.2** Dywedodd Siân Wilkins a Chris Warner wrth y Bwrdd fod cynhadledd y clercod wedi mynd yn dda a bod y rhai a oedd yn bresennol wedi canmol y digwyddiad.

**13.3** Roedd cyfarfod yn cael ei drefnu i'r Bwrdd Rheoli drafod canlyniad refferendwm yr Alban a'i effaith ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**13.4** Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 9 Hydref.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon